OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 2219

## Rheoliadau Gelatin (Masnach o fewn y Gymuned) 2001

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "yr Asiantaeth" ("*the Agency*") yw'r Asiantaeth Safonau Bwyd(**1**);

mae i "awdurdod bwyd" yr un ystyr â "food authority" yn Neddf Diogelwch Bwyd 1990(**2**)); a

rhaid dehongli "canolfan gasglu" ("*collection centre*"), "tanerdy" ("*tannery*") a "deunydd crai" ("*raw material*") yn unol â Phenderfyniad y Comisiwn 1999/724/EC sy'n diwygio Atodiad II i Gyfarwyddeb y Cyngor 92/118/EEC sy'n nodi gofynion ar gyfer iechyd anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd sy'n llywodraethu'r fasnach mewn cynhyrchion yn y Gymuned a mewnforion i'r Gymuned nad ydynt yn ddarostyngedig i'r gofynion a enwyd sydd wedi'u nodi mewn rheolau Cymunedol penodol y cyfeirir atynt yn Atodiad A(I) i Gyfarwyddeb 89/662/EEC neu, mewn perthynas â phathogenau, â Chyfarwyddeb 90/425/EEC (**3**).

(**1**) A sefydlwyd gan adran 1 o Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28).
(**2**) 1990 p.16. Mae adran 5 yn disgrifio'r awdurdodau sy'n awdurdodau bwyd at ddibenion y Ddeddf.
(**3**) OJ Rhif L290, 12.11.99, t.32.